

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Deall graddau: Canllaw cyflym i weithwyr gofal

# Deall graddau:
# Canllaw cyflym i weithwyr gofal


## Beth sy'n newid?

O 1 Ebrill 2025, bydd pob cartref gofal a gwasanaeth cymorth cartref a gaiff ei arolygu yng Nghymru yn cael graddau.

Bydd yn ofyniad cyfreithiol i'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn arddangos eu graddau yn eu safle.

NID oes rhaid i'r gwasanaethau canlynol arddangos graddau yn eu safle:

- Gwasanaethau ar gyfer pobl dan 18 oed.
- Gwasanaethau bach â 4 preswylydd neu lai.
- Gwasanaethau cymorth cartref lle:
  - Nad yw lleoliad y gwasanaeth yn hygyrch i aelodau o’r cyhoedd.
  - Darperir y gwasanaeth o gartref preifat unigolyn.



# Deall y pedair thema


Bydd un o'r graddau canlynol yn cael ei dyfarnu i wasanaethau:

- **Rhagorol**
- **Da**
- **Rhaid gwella**
- **Rhaid gwella'n sylweddol**

Bydd y rhain yn cael eu cymhwyso at bedair thema:

- Sut rydych yn cefnogi'r bobl i fod yn hapus ac yn iach
- Sut rydych yn parchu dewisiadau ac annibyniaeth
- Sut rydych yn helpu'r bobl i gadw mewn cysylltiad

- Sut rydych yn diwallu anghenion y bobl
- Sut rydych yn parchu urddas a hawliau
- Sut rydych yn cadw'r bobl yn ddiogel




- Pa mor gyfforddus a diogel yw'r adeilad
- Pa mor dda y caiff popeth ei gynnal a'i gadw
- Sut mae'r lle yn cefnogi annibyniaeth

- Pa mor dda y caiff y gwasanaeth ei redeg
- Sut y caiff y staff eu cefnogi
- Sut mae'r gwasanaeth yn gwella'n barhaus

# Mae eich rôl yn bwysig!

Rydych yn helpu i gyflawni graddau da drwy wneud y canlynol:

- ✓ Gwybod pa ganlyniadau y mae'r bobl am eu cyflawni ac adeiladu ar eu cryfderau.
- ✓ Trin y bobl â pharch.
- ✓ Cefnogi dewisiadau'r bobl.
- ✓ Dilyn cynlluniau gofal yn ofalus.
- ✓ Cadw cofnodion da.
- ✓ Rhoi gwybod am bryderon.
- ✓ Gweithio'n ddiogel.

## Yr hyn y gellid ei ofyn i chi yn yr arolygiad nesaf:

- Sut rydych yn cefnogi annibyniaeth y bobl.
- Sut rydych yn cadw'r bobl yn ddiogel.
- Sut rydych yn parchu dewisiadau'r bobl.
- Sut rydych yn cynnal urddas.
- Sut rydych yn diwallu anghenion sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg.
- Pa hyfforddiant rydych chi wedi'i gael.
- Sut rydych yn ymdrin ag argyfyngau.

## Beth rydym am ei weld wrth arolygu:

- Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Diogelu hawliau a dewisiadau. Cefnogi annibyniaeth.
- Cynnal diogelwch.
- Dangos parch.
- Gweithio fel tîm.
- Dilyn gweithdrefnau.
- Ble i ddod o hyd i gymorth



## Lle i ddod o hyd i help

- Gofynnwch i'ch rheolwr.
- Darllenwch eich polisïau.
- Siaradwch â chydweithwyr.
- Defnyddiwch eich hyfforddiant.
- Ewch i gyfarfodydd tîm.

## Pam fod graddau yn bwysig i chi

### Arddangos eich gwaith

- Ffordd o ddangos i'r byd y gofal gwych rydych chi'n ei ddarparu.
- Cydnabyddiaeth am y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud bob dydd.
- Dathlu cyflawniadau eich tîm.
- Tystiolaeth o'ch rhagoriaeth broffesiynol.

### Cefnogi eich datblygiad

- Dealltwriaeth glir o sut beth yw 'da'.
- Cyfleoedd i rannu arferion gorau.
- Cydnabod eich sgiliau a'ch arbenigedd.
- Nodi cyfleoedd hyfforddi.

### Gwella eich gweithle

- Cyfathrebu gwell o fewn y tîm.
- Prosesau a gweithdrefnau cliriach.
- Mwy o gymorth i sicrhau llesiant y staff.
- Prosesau cryfach o ran gweithio fel tîm
- Amgylchedd gwaith gwell.

### Gwella eich hyder

- Cydnabod eich sgiliau proffesiynol.
- Tystiolaeth o'ch safonau uchel.
- Cydnabod eich ymroddiad.
- Balchder yn eich cyflawniadau.
- Cadarnhad o'ch gwaith caled.

### Sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed

- Cyfle i rannu eich profiadau
- Llwyfan i nodi arferion da.
- Sianel ar gyfer awgrymu gwelliannau
- Cydnabod eich arbenigedd.
- Cadarnhau bod eich adborth yn werthfawr.

### Cefnogi defnyddwyr eich gwasanaeth

- Dewis mwy gwybodus i deuluoedd.
- Safonau gofal clir.
- Prosesau cyfathrebu tryloyw.
- Gwasanaeth o ansawdd gwell.
- Mwy o ymddiriedaeth a hyder.

### Cofiwch:

Nod graddau yw dathlu'r gofal gwych rydych chi eisoes yn ei ddarparu.

Maent yn adnodd sy'n cynnig cydnabyddiaeth, yn dangos cynnydd ac yn cynnig cyfle i ddangos i'r byd sut beth yw gofal rhagorol.

Rydych chi eisoes yn gwneud gwaith anhygoel – mae nawr yn amser i ddangos hynny!

OGL © WG51924 ISBN digidol 978-1-83715-499-9